**Rhif:** WG43713

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Ymgynghoriad ar y
Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi: 23Tachwedd 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg sy'n cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi.

**Sut i ymateb**

Dylid ebostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **22 Chwefror 2022** hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:


Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg

ebost:
UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales


@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a’u cadw’n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.
Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

| | |
|---|---|
| **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad** | Eich enw:<br><br>Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):<br><br>e-bost/rhif ffôn:<br><br>Eich cyfeiriad: |

Dychwelwch eich ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022 at

Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

neu anfonwch eich ymatebion yn electronig i:

e-bost: UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

## Cwestiynau

**Cwestiwn 1**
Ydych chi'n meddwl y gallai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy?

**Cwestiwn 2**
Sut all Llywodraeth Cymru annog mwy o ymwneud â'r model tai cydweithredol neu'r model tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru?

**Cwestiwn 3**
Beth yw'r heriau wrth geisio cynnal digon o fuddsoddiad a diddordeb lleol mewn mentrau cymdeithasol?

**Cwestiwn 4**
Pa gymorth neu gymhellion allai Llywodraeth Cymru eu cynnig fel bod cynllun o'r fath yn ennyn diddordeb?

**Cwestiwn 5**
I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai yn ffordd ymarferol ac effeithiol o helpu gwerthwyr tai i chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu cymunedau Cymraeg?

**Cwestiwn 6**
Sut all gwerthwyr tai gael eu hannog neu eu cymell i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio?

**Cwestiwn 7**
A fyddai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd eiddo?

**Cwestiwn 8**
Beth arall allai helpu i wneud yn siŵr bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad dai?

**Cwestiwn 9**
Sut all Llysgenhadon Diwylliannol ymgysylltu ar lefel gymunedol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a datblygu gwell dealltwriaeth o’n diwylliant, treftadaeth a’n hiaith?

**Cwestiwn 10**
Pa ffactorau penodol ddylai'r comisiwn eu hystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol?

**Cwestiwn 11**
Yn eich barn chi, pa heriau fydd y comisiwn yn eu hwynebu?

**Cwestiwn 12**
A oes yna unrhyw enghreifftiau, arferion neu achosion o ddiddordeb a allai helpu'r comisiwn i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith?

**Cwestiwn 13**
Beth (arall), ynghyd â chymorth tai, y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau?

**Cwestiwn 14**
A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar unrhyw un o'r cynlluniau a nodir uchod?

**Cwestiwn 15**
Pa fath o ymyraethau lleol hoffech chi eu gweld i hyrwyddo pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, annog pobl i'w cadw ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld yn ein cymunedau?

**Cwestiwn 16**
Beth arall ddylai gael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg?

**Cwestiwn 17**
Pa newidiadau fyddech chi'n eu gwneud i'r cynigion sydd yn y cynllun hwn er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?

**Cwestiwn 18**
Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐